

## **Joel James AS - Adroddiad ar ymweliad â Mbale, Uganda – 10 Mawrth - 18 Mawrth, 2023**

### **Diben yr Ymweliad**

Ers cael fy ethol i'r Senedd, rwyf wedi datblygu diddordeb mewn rhaglen Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru, a sut y mae'n fuddiol i breswylwyr sy'n byw yn fy rhanbarth i - gan fod llawer o gysylltiadau eglwysig ac elusennol hanesyddol.

Rwyf wedi gofyn sawl cwestiwn i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol am y gwaith sy'n cael ei wneud a sut maen nhw'n rheoli'r rhaglen plannu coed ym Mbale. Rwyf hefyd wedi cwrdd â dirprwy gyfarwyddwr Maint Cymru, ond er gwaethaf hyn, roeddwn i'n parhau i deimlo fod llawer o elfennau o'r prosiect nad oeddwn yn eu gwerthfawrogi na'u deall yn llawn.

Felly, ymwelais â rhanbarth Mbale a'r prosiect METGE - sy'n cael cyllid Llywodraeth Cymru drwy Maint Cymru - gyda'r nod o ddeall:

- graddau'r datgoedwigo a'r angen am waith parhaus
- sut roedd y rhaglen yn cyflawni ei honiadau datganedig
- a oedd y prosiect yn sicrhau gwerth am arian
- a fyddai buddion pe bai cyllid ar gael i ehangu'r prosiect
- a oedd agweddau y gellid eu cymhwyso i brosiectau plannu coed yng Nghymru
- beth oedd cyfyngiadau'r prosiect
- diwylliant y gymuned o amgylch y rhaglen plannu coed
- sut mae arian gan breswylwyr yn fy etholaeth yn cael ei ddefnyddio
- effaith newid hinsawdd ar y rhanbarth.

### **Prosiect Maint Cymru**

Cyfarfûm â METGE a Nicola Pullman, Prif Swyddog Gweithredol Maint Cymru – sef y sefydliadau sy'n hwyluso'r prosiect ym Mbale ac sy'n cael cyllid gan Lywodraeth Cymru. Eglurodd METGE sut roedd 80 y cant o'r boblogaeth yn ddibynnol ar amaethyddiaeth am eu bywoliaeth a bod hyn wedi arwain at ddatgoedwigo helaeth er mwyn tyfu cynyau i'w bwyta. Bu cynnydd mawr hefyd ym mhoblogaeth y rhanbarth a oedd wedi arwain at fwy o angen am dir ffermio a'r ffermydd presennol yn cael eu rhannu i ddarparu ar gyfer teuluoedd. Yn ddiwylliannol, mae ffermydd a'r tir ffermio presennol yn cael eu rhannu'n gyfartal pan gânt eu hetifeddu ac oherwydd hyn yn y blynyddoedd diwethaf mae'r ffermio wedi bod yn fwy dwys ar leiniau llai o dir. Mae hyn wedi rhoi pwysau helaeth ar ffermydd i gael gwared ar goed er mwyn gwneud lle i gynyddau.

Gofynnais gwestiynau ynghylch torri a thrin coed yn anghyfreithlon sydd, hyd y deallaf, wedi bod yn broblem yn Uganda ar lefel genedlaethol a lleol, a dysgais fod coed yn cael eu hystyried yn ased ariannol y mae angen i deuluoedd gael mynediad ato ar lefel leol er mwyn darparu eitemau hanfodol fel nwyddau ysgol neu fwyd, ac felly mae cymaint o goed wedi cael eu torri'n anghyfreithlon er mwyn i aelwydydd wneud elw ariannol.

Gan fod cymaint o goed bellach wedi cael eu torri, mae'r ardal yn profi lefelau sylweddol o ansefydlogrwydd pridd yn ogystal â newid yn yr hinsawdd. Mae glaw trwm yn aml yn achosi tirlithriadau, ac maent yn profi cyfnodau hirach o dywydd sych.

Dysgais hefyd fod 90 y cant o'r boblogaeth yn ddibynnol ar goed tân ac mae hyn wedi golygu bod coed yn cael eu torri i gael siarcol, sy'n nwydd masnachadwy.

Teithiais o gwmpas rhanbarth Mbale cymaint ag yr oeddwn i'n gallu i weld graddau'r datgoedwigo drosof fy hun a chefais fy synnu'n wirioneddol gan y graddau a welais.

### **Datgoedwigo yn rhanbarth Mynydd Elgon, Mbale**



Llun 1 o Fynydd Elgon, sy'n dangos datgoedwigo ar y mynydd ei hun.



Llun 2 o Fynydd Elgon yn dangos cnwd bach o goed sy'n nodweddiadol o'r coed a oedd yn gorchuddio'r rhanbarth yn wreiddiol.



Llun 3 wedi'i dynnu o ben Mynydd Elgon yn dangos graddau'r datgoedwigo a'r nifer sylweddol o ffermydd bach a lleiniau tir.



Llun 4, datgoedwigo a wnaed ar iseldir er mwyn darparu tir fferm.

Mae datgoedwigo a phlannu cnydau wedi hynny'n cael effaith enfawr ar y rhanbarth, ac mae hyn yn achosi ansefydlogrwydd pridd gan arwain at dirlithriadau. Mae Llun 5 yn dangos graddau a photensial hyn. Yn uchel ar ochr y bryn, gellir gweld bod coedwig wedi cael eu clirio i wneud lle i dir fferm.



Llun 5 yn dangos datgoedwigo a chnydau yn tyfu'n uchel ar ochr y bryn.



Mae llun 6 yn dangos tirlithriad a achoswyd gan ddatgoedwigo.



Ar ôl fy nghyfarfodydd gyda METGE (Gweler ffigur 7) deallais mai un o nodau'r prosiect plannu coed oedd helpu i liniaru yn erbyn newid hinsawdd ac er mwyn gwneud hyn roeddent yn bennaf yn helpu i newid y diwylliant lleol a'u dealltwriaeth o bwysigrwydd coed. Yn benodol, roeddent yn annog ffermwyr i weld coed fel cnwd cynaliadwy ac yn pwysleisio'r potensial ar gyfer amaeth-goedwigaeth, yn arbennig ar gyfer tyfu coffi, cnau cashiw, bananas, cloddiau terfyn ar gyfer cadw da byw, a chynaeafu cychod gwenyn. Mae'r prosiect hefyd yn annog defnyddio stofiau ynni effeithlon sy'n lleihau'r defnydd o goed tân dros 50 y cant. Ers 2018 mae METGE wedi cefnogi 4000 o aelwydydd gyda stofiau Lorena (Gweler ffigur 8).




Ffigur 7 Cyfarfod gyda METGE yn eu swyddfeydd ym Mbale.



Ffigur 8, llun o sleid a gyflwynwyd i mi yn dangos stôf Lorena.

Wrth helpu i newid y diwylliant i weld coed fel ffynhonnell refeniw gynaliadwy o amaeth-goedwigaeth buom yn trafod sut mae'r prosiect yn defnyddio cyllid o brosiect Maint Cymru i sefydlu planigfeydd coed lleol a thalu am y gost o'u cynnal a chyflenwi hadau. Mae ffigurau 10, 11 a 12 yn dangos tair planhigfa yr ymwelais â nhw sy'n plannu gwahanol gnydau ar gyfer y cymunedau maent yn eu

gwasanaethu. Roeddwn hefyd yn falch o glywed bod y prosiect wedi bod yn gweithio gyda Chanolfan Biogyfansoddion Bangor, sy'n rhan o Brifysgol Bangor, i brofi deunydd lapio samplau coed bioddiraddadwy yn hytrach na defnyddio deunydd lapio plastig, ac felly roedd cysylltiadau ehangach wedi'u sefydlu rhwng sefydliadau eraill yng Nghymru. Gellir gweld y deunydd lapio bioddiraddadwy yn Ffigur 9.



Ffigur 9 yn dangos y deunydd lapio bioddiraddadwy a ddarperir gan ganolfan Biogyfansoddion Bangor i helpu i leihau faint o blastig sydd ei angen wrth godi samplau coed.



Ffigur 10, planhigfa yn Bumaena yn dangos samplau - mae plannu'n digwydd ddwywaith y flwyddyn a gall y blanhigfa hon gynhyrchu hyd at 50000 o samplau fesul cylch plannu.





Mae Ffigur 11 yn dangos y blanhigfa ym Makunda. Yma gallwn weld y deunydd lapio plastig a roddir o amgylch pob sampl sy'n cael ei dynnu wrth blannu ac mae'n dangos y defnydd o'r deunydd lapio samplau bioddiraddadwy sy'n cael eu cyflenwi gan ganolfan Biogyfansoddion Bangor.




Mae Ffigur 12 yn dangos y blanhigfa yn Komokunda sy'n cyflenwi coed coffi sy'n creu ffrwythau ar gyfer coffi Jennifers yng Nghymru.


Adroddwyd i mi fod gan y rhwydwaith cymunedol o blannu planhigfeydd 44 blanhigfa ar draws saith ardal yn rhanbarth Mbale, ac ar y pryd roeddent wedi plannu 21, 311, 766 o goed gyda'r nod o blannu 25 miliwn erbyn 2025. Pan fydd samplau'n barod i'w plannu mae'r prosiect yn defnyddio gorsaf radio leol (Farmer voice radio) i roi gwybod bod y samplau'n barod, yn rhad ac am ddim i'w casglu, a'r manteision o blannu coed. Mae hefyd yn helpu i ledaenu gwybodaeth sylfaenol, yn trafod y defnydd o ddulliau traddodiadol ac yn rhoi cyngor ymarferol i helpu i gynnal planhigfeydd coed. Mae hyn wedi helpu cymunedau i glywed am argaeledd samplau coed ac wedi ysgogi galw.

Roeddwn hefyd yn falch o glywed bod y prosiect bellach wedi datblygu system casglu data o ddelweddau lloeren a fydd yn caniatáu iddynt ddechrau mesur sut mae coed newydd yn tyfu yn yr

ardaloedd o amgylch y planhigfeydd. Mae ffigurau 13 a 14 yn dangos delweddau o'r system casglu data y maent wedi'i defnyddio.



Ffigur 13: Llun yn dangos y system casglu data yn cael ei defnyddio i gofnodi lle mae coed yn cael eu plannu fel rhan o'r prosiect. Mae data'n cael eu lanlwytho i wefan sy'n galluogi partneriaid i weld lle mae'r prosiect yn gwneud cynnydd.



Ffigur 14: Cymerwyd delweddau lloeren i ddangos sut mae'r gwaith o blannu coed fel rhan o'r prosiect yn effeithio ar yr ardal leol. Mae hefyd yn caniatáu i'r prosiect weld ardaloedd sy'n profi dirywiad mewn coed.

Ymwelais â nifer o enghreifftiau o blanhigfeydd coed bach a gyflenwir â choed ar gyfer METGE. Yn ffigurau 15, 16 ac 17 gellir gweld delweddau o goed a blannwyd fel rhan o'r prosiect. Yn ffigurau 18 ac 19 gellir gweld coedwig sefydledig a ddefnyddir i gynnal cychod gwenyn. Defnyddir cychod gwenyn top-bar yn bennaf, a chaiff heidiau eu dal yn rheolaidd i sefydlu nythod gwenyn newydd. Ar adeg yr ymweliad roedd 30 o grwpiau gyda dros 1000 o gychod gwenyn a oedd wedi'u sefydlu fel rhan o'r prosiect i wella incwm aelwydydd a dangos cynaliadwyedd ar gyfer coedwigoedd.





Ffigur 15: gallwch weld fferm yng nghysgod Mynydd Elgon a choed banana sy'n blaguro a gafodd eu cyflenwi gan METGE.



Ffigur 16: Fel rhan o'r rhaglen plannu coed mae coed ffrwythau yn cael eu plannu o amgylch terfynau ysgolion i helpu i gyflenwi bwyd i blant ysgol.



Ffigur 17: Llun yn dangos samplau newydd wedi'u plannu mewn ardal a ddefnyddiwyd gynt ar gyfer cnydau.



Ffigur 18: Llun o goedwig sefydledig yn ardal Sunu a'r cwch gwenyn top-bar a leolir yn y goedwig.

## **Cyfyngiadau'r prosiect**

Mae'r prosiect wedi dosbarthu dros 21 miliwn o goed ac yn adrodd bod hyn yn cynnwys tua 20 y cant o goed cyffredinol na fyddant yn cael eu defnyddio, 60 o goed sy'n cael eu plannu ar gyfer pren a choed tân, a 20 y cant sy'n goed ffrwythau (coed coffi a bananas yn benodol). Maent hefyd yn adrodd cyfradd goroesi canrannol o 47-50 y cant, sy'n golygu bod tua 50 y cant o goed yn marw cyn iddynt aeddfedu. Mae hyn yn bennaf oherwydd methiant i reoli'r coed ar ôl plannu ac mae hon yn broblem benodol o amgylch ysgolion yn ystod gwyliau'r ysgol, ac felly er bod ysgolion wedi bod yn awyddus i blannu coed ffrwythau, mae ganddynt gyfradd llwyddiant isel iawn. Mae cyfyngiadau hefyd gan fod angen mwy o ymwybyddiaeth ar y boblogaeth leol o botensial llawn ailblannu coed, ac mae angen tir o hyd er mwyn tyfu cnydau.

Her fawr y prosiect yw newid diwylliant rhai ardaloedd i ddeall y gellir defnyddio'r coed i wneud incwm yn hytrach nag ar gyfer coed tân neu bren. Mae coed coffi, yn arbennig, yn cynhyrchu llawer, a gall y blanhigfa hefyd fod yn gartref i nifer o gychod gwenyn a all hefyd fod yn ffynhonnell o incwm. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau yn y farchnad i werthu'r cynhyrchion hyn sy'n golygu bod gwerth y cynnyrch yn isel, ac mae'r farchnad yn agored i fod yn orlawn.

## **Gwella cynhwysiant rhywedd**

Trafodais gyda METGE ynghylch sut y maent yn ceisio lliniaru'r cyfyngiadau hyn, a'u ffocws yw gwella cynhwysiant rhywedd wrth wneud penderfyniadau i newid dealltwriaeth ddiwylliannol coed fel bod cymunedau'n eu gwerthfawrogi am eu bywoliaeth. Ymwelais â'r grŵp yn Bumaena lle'r oedd planhigfa samplau coed a dosbarthu a phlannu coed yn cael eu cynnal gan gydweithfa o fenywod. Mae hyn wedi helpu i wella rôl grŵp ymylol wrth ailsefydlu'r ecosystem ac wedi bod yn fanteisiol hefyd o ran gwella cynhwysiant cymdeithasol ac addysg menywod yn yr ardal.

## **Cwmni cydweithredol coffi a mêl**

Cefais y fraint hefyd o ymweld â chwmni cydweithredol coffi a mêl Mynydd Elgon. Mae'r grŵp hwn wedi tyfu'n sylweddol o 25 o ffermwyr yn 2016/17 i 752 o ffermwyr yn 2022/23 ac mae bellach yn cyflogi 15 aelod o staff sy'n ymwneud â'r gwaith o hyfforddi gwenynwyr, rhostio a chymysgu ffa coffi a rhedeg y sefydliad. Mae ganddo 1 hyfforddwr gwenynwr fesul 70 o geidwaid gwenyn. Yn nodedig, mae 80 y cant o'r elw yn mynd nôl at ffermwyr ac maent yn helpu i sicrhau pris mwy ffafriol ar y farchnad oherwydd gallant gyflenwi'n gyson iddi. Mae'r model hwn wedi bod yn llwyddiannus ac mae llywodraethau lleol a chenedlaethol wedi dod i ddysgu sut y gallant efelychu eu model.





Ffigur 19: Llund wedi'i dynnu o gwmi cydweithredol coffi a mêl Mynydd Elgon gyda rhai o'i staff.



Ffigur 20: Mae'r cwmni yn gwneud mwy na gwerthu ffa coffi, mae hefyd yn gallu rhoistio a chymysgu'r ffa, gan gynyddu eu gwerth ar y farchnad.



Roeddwn hefyd yn falch o allu dysgu am brosiectau lleol eraill fel Sefydliad Casa Uganda sy'n helpu merched i aros mewn addysg pan fyddant yn cael mislifoedd. Mae hon yn broblem barhaus sy'n cyfyngu ar allu merched, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, i aros mewn addysg.

